YGC

# 29 Ebrill 2021 - PWYLLGOR IAITH

# Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn YGC







## Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn YGC

Dros y 5 mlynedd ddiwethaf mha' mae hi wedi bod yn sialens ac yn bleser i mi, a rheolwyr yr adran, gymryd camau ychwanegol i hybu'r iaith Gymraeg a sicrhau ein bod yn cyfrannu tuag at weithredu Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018 - 2023.

### Prosiect Dynodiadau Iaith

- Bu i Ymgynghoriaeth Gwynedd fod yn rhan o'r Peilot dechreuol i'r Prosiect Dynodiadau Iaith.

- Bu i ni gydweithio yn agos gyda Siôn Elwyn Hughes, Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg, gyda'r adran ar gasglu hunanasesiadau unigolion a darparu hyfforddiant er mwyn cefnogi'r staff nad oeddynt yn cyrraedd y gofynion iaith.

- Bu i ni gynnal 112 o asesiadau staff cyfredol, ac roedd hyn yn cynnwys staff parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol.

- Bu i'r gwaith ymchwil yma fod yn llwyddiant i'r adran gyda 92% yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd.

- Erbyn hyn mae'r gwaith yn digwydd yn naturiol ar y cyd rhwng Siôn Elwyn Hughes, Llio Mai Hughes a Thîm Rheoli YGC.

- Mae nifer o staff YGC hefyd wedi cwblhau holiadur hunanasesu fel mater o drefn yn nyddiau cynnar eu swydd. Golygai hyn bod cyfradd o'r asesiadau'n gyson uchel. Trwy hyn, gallwn adnabod y staff sydd angen cefnogaeth yn gynnar, a chynnig hyfforddiant iddynt yn syth.

### Cynllun Cyfeillion

- Mae'r Cynllun Cyfeillion wedi'i sefydlu i gefnogi un o amcanion y prosiect hwn, sef helpu staff y Cyngor i gyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi.

- Diben y cynllun yw rhoi cyfle i staff sydd ar ganol derbyn hyfforddiant, neu newydd orffen, i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol a gofyn am help mewn sefyllfa gyfforddus.

- Ar hyn o bryd mae 3 aelod o staff YGC yn rhan o'r Cynllun.

- Yr enghraifft diweddar yw Molly sydd wedi ymuno  a YGC yn ystod y cyfnod clô ym Mawrth 2020, ac mae wedi ymuno gyda'r Cynllun Cyfeillion. Mae Molly wedi cael ei phartneru gydag Owain Griffith.  Mae'r Cynllun hwn yn galluogi i Molly gynnal sgyrsiau yn y Gymraeg gyda chyd-weithiwr a hefyd bod yn ymwybodol bod ganddi "glust i wrando arni". Mae cefnogaeth Owain, yn ymddangos bod y trefniant hwn yn gweithio'n effeithiol iawn.

**Gwersi Cymraeg**

- Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu ar y cyd gyda Siôn Elwyn Hughes a ninnau, ble byddem yn adolygu'r cyrsiau sydd yn cael eu cynnig, a hefyd yn adolygu'r Staff sydd gennym ar wahanol gyrsiau yn barod.

- Yn ystod y cyfnod clô, mae'r gwersi Cymraeg wedi parhau gennym, gyda staff yn derbyn eu gwersi drwy wahanol ffyrdd :

- Mae Abigail Caulfield wedi cynnal ei gwersi Cymraeg drwy gyfrwng "Teams".

- Mae Telor Williams yn mynychu cwrs Gloywi Iaith yn Nant Gwrtheyrn, Llithfaen.

- Bob Humphreys yn enghraifft dda iawn sydd wedi mynd ati i ddilyn cyrsiau cyson yn y Gymraeg.  Penderfynodd Bob i gwblhau Cyrsiau Cymraeg drwy ddilyn llwybr - Dysgu Cymraeg drwy Brifysgol Bangor. Bu iddo ddechrau drwy ddilyn cwrs "Stori a Sgwrs" lle'r oedd yn darllen nofelau Cymraeg ac yna yn eu hadolygu, ac yna'r ail gwrs yn cael ei gynnal ar ffurf darlith, ble roedd yn dysgu am ddiwylliant Cymru. Mae Bob wedi mwynhau'r dysgu, ac wedi bod yn hynod o lwyddiannus.

**Cynllun "Arfer" drwy'r Brifysgol.**

- Bu i'r Gwasanaeth Dwr ac Amgylchedd gytuno i gydweithio ar y Cynllun Arfer drwy'r Brifysgol ym Mangor.  Bwriad y Prosiect hwn oedd newid arferion iaith i alluogi cydweithwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi sefydlu arferiad o ddefnyddio Saesneg) i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

- Roedd Arwel Tomos Williams yn Ymchwilydd o'r Brifysgol, ac yn gweithio ar y Cynllun hwn. Mae wedi mynychu'r Swyddfa "Dwr ac Amgylchedd" yn wythnosol, ac yn eistedd hefo'r staff. Mae ei neges o newid iaith yn y gweithle a newid diwydiant yn yr Adran yn gweithio. Bellach maent yn cynnal eu sgyrsiau yn y Swyddfa drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd yn ymateb i alwadau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg.

<u>Gwobr Dafydd Orwig</u>

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae 5 aelod o staff YGC wedi curo Gwobr Goffa Dafydd Orwig sef :

- Alex Jones
- Nancy Wilkinson
- Jon Chapman
- Owen Angus Duncan
- Nia Jane Owen-Midwood

Bu i'r gwobrau yma gael ei 'hennill ar sail dysgu'r iaith Gymraeg neu hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle.

<u>Cymwysterau proffesiynol Eng Tech</u>

Gan fod rhan fawr o wasanaethau YGC yn y maes Peirianneg Sifil, rydym yn cydweithio agos gyda'r "Institution of Civil Engineers" (ICE), ac mae perthynas glos hefo hwy.

Mae llawer iawn o'n Technegwyr ifanc ni yn gweithio tuag at gael cymhwyster proffesiynol a elwir yn "Eng Tech". Mae'r cymhwyster yma yn lefel o gofrestriad proffesiynol a gydnabyddir yn fyd eang ar gyfer Technegwyr Peirianneg. Maen gydnabyddiaeth ffurfiol o sgiliau a chymhwysedd peirianneg, ac yn gam pwysig tuag at ddod yn beiriannydd corfforedig neu'n beiriannydd siartredig.

Yn 2014, bu i ni ffurfioli'r drefn gyda'r ICE i allu cynnal y cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd cael cyflwyno'r gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg. Bu i hyn fod yn help i'r unigolion rheini oedd yn fwy hyderus yn y Gymraeg. Hefyd newidiwyd y drefn o drefnu'r cyfweliad proffesiynol yng Nghymru, a'u cynnal yn y Galeri yng Nghaernarfon, hyn yn galluogi i'r staff aros yn lleol, ac osgoi teithio i fannau fel Manceinion/Llundain. Roedd Gwynfor Hedd Roberts sy'n Uwch Beiriannydd Prosiect gyda YGC yn un o'r rhai cyntaf i ddilyn y drefn yma.

**Y Dyfodol**

I'r dyfodol mae YGC am:

- Ymestyn ymhellach defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn YGC, gyda chyrff eraill, sef ein contractwyr a'n ymgynghorwyr, drwy barhau i gynnal sgyrsiau yn y Gymraeg, a hefyd ymateb i e-byst drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yn ystod Awst 2021 bydd YGC yn anelu i uchafu eu hachrediad "Buddsoddwyr Mewn Pobl", a bydd yr elfen gwaith sy'n ymwneud ar Iaith Gymraeg yn rhan sylweddol o'r dasg yma.
- Parhau i weithio'n agos hefo Siôn Elwyn a Llio o'r Adran Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg.